Eiddo/GVJ/X248

# I'W OSOD TRWY DENDR

Hen Orsaf Bad Achub, Harbwr Allanol, Pwllheli, LL53 5AY
Gorffennaf 2026






Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

## CYFLWYNIAD

Gwahoddir cynigion tendr ar gyfer tenantiaeth yr hen orsaf bad achub sydd wedi'i lleoli yn Harbwr Allanol Pwllheli.

## LLEOLIAD

Mae Pwllheli yn dref arfordirol ar Ben Llŷn yng Ngwynedd a dyma brif ganolfan farchnad a manwerthu'r ardal. Mae gan y dref gysylltiadau ffyrdd â'r A497 i'r dwyrain i Borthmadog a'r A499 i'r gogledd i Gaernarfon i gysylltu â thraffordd arfordirol yr A55. Mae'r dref yn elwa o orsaf reilffordd gyda gwasanaethau ledled Cymru ac i Firmingham a'r Amwythig.

Mae'r adeilad mewn lleoliad neilltuedig yn Harbwr Allanol Pwllheli yn agos at fusnesau morwrol amrywiol ac yn agos i ganol y dref. Gellir adnabod yr eiddo gydag ymyl goch ar y cynlluniau atodedig.

## DISGRIFIAD

Cyn-ddefnydd yr eiddo oedd gorsaf bad achub. Mae wedi'i adeiladu o gerrig ac mae ganddo do llechi ar oleddf. Mae'r eiddo yn adeilad unllawr gyda 'mezzanine' crog.

Mae'r llawr gwaelod yn cynnwys ardal storio a thoiled. Mae'r mezzanine yn cynnwys balconi, cegin a swyddfa. Ceir mynediad i flaen a chefn yr eiddo drwy ddrysau pren plygadwy (bi-fold).

Bydd yr eiddo hefyd yn elwa o hawl i ddefnyddio'r llithrfa gyfagos.

## MESURIADAU

Mae'r mesuriadau bras fel a ganlyn:

| ARDAL | MEDR SGWÂR | TROEDFEDD SGWÂR |
|---|---|---|
| Llawr gwaelod | 139.19 | 1,498 |
| Mezzanine | 62.97 | 678 |

## PRYDLES

Mae'r eiddo ar gael ar sail Tenantiaeth Fusnes am gyfnod o dair blynedd (dyddiad union i'w gadarnhau). Bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd, ac nid oes unrhyw ymrwymiad i ymestyn nac i adnewyddu'r denantiaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

## RHENT

Dylid cyflwyno cynigion tendro ar sail taliadau rhent blynyddol (Taliad Blwyddyn 1, Taliad Blwyddyn 2, Taliad Blwyddyn 3, ac ati).

Bydd y tenant yn cael ei anfonebu ymlaen llaw bob mis.

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

Bydd y taliad misol cyntaf yn daladwy ar ddyddiad cychwyn y brydles.

**DEFNYDD**

Dylid cyfeirio pob ymholiad cynllunio at Uned Gynllunio Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu yn cynllunio@gwynedd.llyw.cymru.

**CYNNAL A CHADW**

Bydd y tenant yn gwbl gyfrifol am gynnal a chadw'r eiddo yn allanol a mewnol.

**YSWIRIANT**

Bydd y tenant yn gwbl gyfrifol am sicrhau bod ganddynt y polisïau yswiriant canlynol a darparu copïau i'r landlord:

- Yswiriant Adeiladu ar gyfer y gwerth adfer llawn
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gydag indemniad i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â hawliau trydydd parti am ddifrod neu golled a achosir o ganlyniad i weithredoedd neu esgeulustod y tenant gydag isafswm gwerth polisi o £10,000,000
- Yswiriant sy'n bodloni Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 neu unrhyw orchymyn statudol arall a wneir o dan y Ddeddf honno, unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni

**TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI**

Y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer yr eiddo yw D.

**GWASANAETHAU**

Deallir bod yr eiddo yn elwa o gyflenwadau trydan, dŵr a charthffosiaeth y prif rwydwaith. Dylai partïon sydd â diddordeb geisio cadarnhad bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas at eu defnydd arfaethedig eu hunain.

**TRETHI**

Y tenant fydd yn gyfrifol am drethi annomestig. Dylid cyfeirio pob ymholiad trethi annomestig i Uned Trethi Annomestig Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu at trethiannomestig@gwynedd.llyw.cymru.

**COSTAU CYFREITHIOL**

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu £1,065 (ynghyd â threuliau) tuag at gostau cyfreithiol Cyngor Gwynedd.

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

## POLISI IAITH

Rhaid i'r holl ddeunydd ysgrifenedig, gan gynnwys arwyddion, gael ei arddangos yn Gymraeg a Saesneg ar gost y tenant.

## TELERAU ERAILL

Cyfeiriwch at y prif ben telerau dros y tudalen am y telerau bydd yn cael eu cynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Dylai'r ymgeisydd fodloni eu hunain o'r goblygiadau ac ystyried ceisio am gyngor proffesiynol priodol.

## YMWELIAD

Trwy apwyntiad yn unig drwy Uned Stadau Cyngor Gwynedd y ceir ymweliadau.

## CANLLAWIAU GWNEUD CAIS

Ni dderbynnir unrhyw dendrau oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno yn y modd cywir fel y manylir isod.

**Rhaid** i bob cais gynnwys y dogfennau canlynol:
- Ffurflen gais tendr wedi'i llenwi
- Cynllun busnes sylfaenol

**Rhaid** cyflwyno pob cais mewn amlen wedi ei selio gan ddefnyddio'r label cyfeiriad tendro priodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw geisiadau'n cael eu hagor cyn y dyddiad cau. Rhaid peidio â marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd i newid ei ymddangosiad. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu am unrhyw gost postio.

Mae'r ffurflen gais dendro a'r label cyfeiriad tendro priodol ar gaelyma ar osod neu ar gais gan Uned Stadau Cyngor Gwynedd:

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12:00yh ar ddydd Mercher 19eg o Awst 2026**. Dylech anfon neges trwy e-bost i stadau@gwynedd.llyw.cymru i roi gwybod i ni eich bod wedi cyflwyno cais – ddylech ond ein hysbysu eich bod wedi cyflwyno cais ac **ni ddylech** ddatguddio manylion eich cynnig.

## CYFLAWNIAD Y TENDR

Dylai pob tendrwr ymweld â'r safle, i'w archwilio cyn tendro, i fodloni eu hunain am yr holl amodau a'r cyfyngiadau lleol sy'n effeithio ar y contract. Ni fydd unrhyw honiadau sy'n deillio o fethiant i wneud hyn yn cael eu derbyn.

## GWRTHODIR YMRWYMIAD

Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr, ac nid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i ofyn am unrhyw dreuliau neu gostau mae'r tendrwr yn caffael wrth baratoi'r tendr.

## YMHOLIADAU

Am ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Uned Stadau ar 01766 771 000 neu at stadau@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

**PEN TELERAU**

| | |
|---|---|
| **Landlord** | Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH |
| **Tenant** | I'w cadarnhau. |
| **Cyfreithwyr y Landlord** | Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH |
| **Cyfreithwyr y Tenant** | I'w cadarnhau. |
| **Sicrwydd Deiliadaeth** | Bydd y Brydles hon wedi ei heithrio o ddiogelwch Deddf Landlord a Thenant 1954. |
| **Eiddo** | Mae'r eiddo adnabyddir fel Hen Orsaf Bad Achub, Harbwr Allanol, Pwllheli, LL53 5AY gydag ymyl coch ar y cynllun atodedig at ddibenion adnabod yn unig.<br><br>Er mwyn eglurder, bydd llecyn o dir sy'n ymestyn i 15 medr o ddrychiad deheuol yr eiddo yn cael ei gynnwys yn y brydles. |
| **Rhent** | I'w cadarnhau. |
| **Adolygiad Rhent** | Ni fydd adolygiad rhent o fewn y Cyfnod. |
| **Treth Ar Werth (TAW)** | Nid yw TAW yn berthnasol i'r rhent a delir. |
| **Cyfnod** | Tair blwyddyn. |
| **Cymal Torri** | Gall y Landlord neu'r Tenant dorri'r Brydles ar y pen-blwydd cyntaf drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig. |
| **Defnydd a Ganiateir** | I'w cadarnhau. |
| **Hawliau a Roddwyd i'r Tenant** | Bydd gan y Tenant hawl tramwy, gyda neu heb gerbydau, dros y tir sydd wedi'i groeslinellu mewn melyn ar y cynllun atodedig.<br><br>Bydd gan y Tenant hawl i ddefnyddio llithrfa'r Landlord sydd wedi'i hamlinellu mewn gwyrdd ar y cynllun atodedig.<br><br>Gwaherddir y Tenant yn llym rhag defnyddio tir cyfagos y Landlord ac eithrio at ddibenion arfer yr hawliau a roddir o dan y denantiaeth hon. |
| **Cyflwr** | Gosodir yr Eiddo yn ei gyflwr presennol.<br><br>Bydd y Landlord yn cynnal arolwg ffotograffig cyn i'r Brydles gychwyn. |
| **Alterations** | Ni fydd y Tenant yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr Stadau'r Landlord. |

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

| | |
|---|---|
| **Addurno** | Rhaid i'r Tenant addurno'r Eiddo yn y chwe mis olaf y Cyfnod. |
| **Darnau Gosod a Gosodiadau** | Ni fydd y Tenant yn disodli nac yn symud unrhyw un o osodiadau a ffitiadau'r Landlord yn yr Eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Landlord, a bydd unrhyw ffitiadau a osodir yn eu lle yn dod yn eiddo i'r Landlord.<br><br>Rhaid i'r Tenant ailosod unrhyw osodiadau neu ffitiadau perthynol i'r Landlord yn yr Eiddo sydd y tu hwnt i'w hatgyweirio. |
| **Arwyddion** | Caniateir i'r Tenant osod arwyddion addas ar du allan yr Eiddo yn amodol i gydymffurfiaeth a rheoliadau Cynllunio a chymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Landlord ymlaen llaw o'r geiriad a'r dyluniad. Rhaid i bob arwydd a ddangosir fod yn ddwyieithog - Cymraeg a Saesneg a bydd y Tenant yn gyfrifol am bob costau. |
| **Cynnal a Chadw** | Bydd y Tenant yn cadw'r Eiddo cyfan (allanol a mewnol) mewn cyflwr da ac yn cael ei atgyweirio bob amser. |
| **Yswiriant Adeiladu** | Bydd y Tenant yn yswirio'r Eiddo am y gwerth adfer llawn. |
| **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** | Bydd gan y Tenant Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas â'r Eiddo gydag isafswm yswiriant o £10,000,000.00 (deg miliwn bunt). |
| **Trydan, nwy, dŵr, trethi a chostau rhedeg eraill** | Bydd y Tenant yn talu'r holl gostau rhedeg sy'n ymwneud â'r Eiddo, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n ymwneud â thrydan, nwy, dŵr, draeniau a threthi a aseswyd. |
| **Aralliad** | Nid oes hawl i'r Tenant aseinio, is-osod nac fel arall waredu meddiant y cyfan nac unrhyw ran o'r Eiddo. |
| **Cydymffurfiaeth a Gofynion Statudol** | Rhaid i'r Tenant sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, gorchmynion a rheoliadau sy'n effeithio ar yr Eiddo. |
| **Costau Cyfreithiol** | Bydd y Tenant yn talu cyfraniad tuag at gostau cyfreithiol y Landlord. Amcangyfrifir bod y costau hyn ar hyn o bryd yn £1,065 (ac unrhyw dreuliau) ond maent yn amodol ar gymhlethdod yr achos ac unrhyw ddiwygiad i dabl ffioedd cyfreithiol y Landlord.<br><br>Bydd y Tenant yn ysgwyddo costau cyfreithiol ei hun. |
| **Indemniad** | Bydd y Tenant yn diogelu a rhyddarbed y Landlord rhag unrhyw achos neu hawliad mewn perthynas ag unrhyw niwed, difrod neu golled i unrhyw berson neu bersonau mewn perthynas â'r Eiddo. |
| **Telerau Eraill** | Yr holl delerau ac amodau eraill sy'n gyffredin mewn prydlesi o'r natur yma. |

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

Nid yw'r manylion hyn yn rhan o gynnig neu gontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychiolaethau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau yn fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a'r wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer arweiniad yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.